***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 680 (Cy.68)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *9 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 31B o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**1**) ac adran 24B o Ddeddf Landlord a Thenant 1987(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

### Dirymu ac arbed

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir drwy hyn Orchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) 1997(**3**) mewn perthynas â Chymru.

(2) Ni fydd effaith i'r dirymiad ym mharagraff (1) o ran unrhyw gais sy'n cael ei wneud, neu achos sy'n cael ei drosglwyddo gan lys sirol, i dribiwnlys prisio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004 ynglŷn â mangre yng Nghymru.

(**1**) 1985 p.70; cafodd ei mewnosod gan adran 83(3) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ("Deddf 2002") ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004 ymlaen [ ]. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1987 p. 31; cafodd ei mewnosod gan adran 86(5) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i ddiddymu gan adran 180 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004, ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999 ac Atodlen 1 iddo. Mae diwygiadau i Orchymyn 1999 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) O.S. 1997/1852.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*John Marek*

9 Mawrth 2004

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) 1997 ("Gorchymyn 1997") i'r graddau y mae'n effeithiol ar gyfer Cymru.

Mae Gorchymyn 1997 yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy am achos gerbron tribiwnlys prisio lesddaliadau, yn ddarostyngedig i ostyngiadau ac esemptiadau.

Mae Gorchymyn 1997 yn parhau i fod yn gymwys i unrhyw gais sy'n cael ei wneud, neu achos sy'n cael ei drosglwyddo, gan lys sirol i dribiwnlys prisio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004.

Mae Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy am achos gerbron tribiwnlys prisio lesddaliadau ynglŷn â mangre yng Nghymru, pan fydd y cais yn cael ei wneud, neu'r achos yn cael ei drosglwyddo, ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Gyfarwyddiaeth Dai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Ffôn 029 20 823025).